| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Y Cyngor Sir |
| **DYDDIAD** | 14 Medi 2010 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Adroddiad Blynyddol ar y Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini 2009 – 2010 |
| **DYDDIAD YR ADRODDIAD** | 6 Medi 2010 |
| **GWEITHREDU** | Nodi ei gynnwys a chytuno i'r argymhellion ym mharagraff 8 yr adroddiad hwn. |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Sgriwtini Dros dro a'r Swyddog Sgriwtini ar ran y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Croeso i Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn sy'n nodi'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini yn ystod 2009-2010. Yn unol ag Erthygl 6 Cyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini gyflwyno adroddiadau blynyddol ar eu gwaith i'r Cyngor Llawn.

1.2 Ceir yn yr adroddiad hwn grynodeb o'r materion rhwng Cyfarfodydd Blynyddol y Cyngor ar 5 Mai 2009 ac 11 Mai 2010. Drwy gydol y cyfnod, buom yn ddigon ffodus i gael cyfraniadau gan aelodau a swyddogion a hoffem ddiolch i bawb am eu cyfraniad.

1.3 Mae Pum Cadeirydd o'r Pwyllgorau Sgriwtini newydd wedi cyfrannu i'r adroddiad hwn ac mae crynodeb o'i bwriad, dros weddill y flwyddyn, wedi eu cynnwys fel **ATODIAD**.

## 2. BETH YW TROSOLWG A SGRIWTINI ?

2.1 Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf"), cafodd y broses draddodiadol o wneud penderfyniadau mewn Pwyllgorau ei disodli gan Bwyllgor Gwaith, fyddai, naill ai gyda'i gilydd neu ar wahân, yn gwneud y rhan fwyaf o'r penderfyniadau yn unol â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor.

2.2 Mae'r Cyngor llawn yn ethol Arweinydd yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Yna, mae'r Arweinydd yn dethol Pwyllgor Gwaith o blith aelodau'r Cyngor gan gynnwys penodi Dirprwy Arweinydd. Ni fedr aelod o'r Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

2.3 Trosolwg a Sgriwtini ydi rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithredu. Ynghyd â chaniatáu sefydlu Pwyllgor Gwaith, dan y Ddeddf, rhaid sefydlu un neu ragor o Bwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini i ddal i gyfrif y rheini gyda phwerau gweithredol gan, ar yr un pryd, chwarae rhan bwysig yn y broses o wella'r Cyngor trwy ddatblygu ac adolygu polisïau.

## 3 BETH YDI'R SWYDDOGAETHAU ALLWEDDOL AR GYFER TROSOLWG A SGRIWTINI

3.1 Mae yna bum prif swyddogaeth i Drosolwg a Sgriwtini yn y Cyngor:

- Dal y Pwyllgor Gwaith i Gyfrif
- Adolygu Polisïau
- Datblygu Polisïau
- Gwella / Monitro Perfformiad
- Edrych ar faterion o ddiddordeb cyhoeddus eang a gwaith cyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal

3.2 Cyflawnir y swyddogaethau hyn naill ai drwy edrych ar benderfyniadau unigol, bolisïau neu strategaethau cyfan. Gellir edrych ar faterion mewn manylder neu edrych arnynt yn ystod un cyfarfod. Ni fedr Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini wneud penderfyniadau ond gallant wneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor (e.e. petai argymhelliad yn golygu gwyro oddi wrth neu newid cyllideb a fframwaith polisi y cytunwyd arnynt). Dyma sut mae Trosolwg a Sgriwtini yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau mewn Llywodraeth Leol.

3.3 Ynghyd â sgriwtineiddio penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith (a phenderfyniadau a ddirprwywyd i'r Arweinydd, Aelodau Portffolio a Swyddogion gan y Pwyllgor Gwaith), mae gan Bwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini hefyd y grym i edrych ar faterion o ddiddordeb cyhoeddus eang a gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal. Gall hyn olygu unrhyw sefydliad cyhoeddus, preifat neu leol ond dylai fod yn fater sy'n cael effaith ar ardal yr awdurdod neu ei thrigolion. Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof na fedrant orfodi pobl o sefydliadau eraill i gydweithredu.

## 4. TROSOLWG A SGRIWTINI YN Y CYNGOR RHWNG 5 MAI 2009 A MAI 2010

4.1 Rhwng 5 Mai 2009 ac 11 Mai 20-10, roedd gan Gyngor Sir Ynys Môn dri o Bwyllgorau a oedd yn gorfod cyflawni swyddogaethau Trosolwg a Sgriwtini. Y tri Phwyllgor a sefydlwyd i'r pwrpas hwn roedd :

1. Prif Bwyllgor Sgriwtini;
2. Pwyllgor Trosolwg Polisi, Datblygu Gwasanaethau Sylfaenol ac Adnoddau;
3. Pwyllgor Trosolwg Polisi, Addysg, Iechyd a Lles

4.2 Cafodd y swyddogaethau hyn eu gwahanu er mwyn sicrhau bod y ddwy agwedd sef "Trosolwg" a "Sgriwtini" yn cael eu cyflawni'n ddigonol.

4.3 Prif rôl y ddau bwyllgor trosolwg polisi oedd cynorthwyo'r broses o ddatblygu polisïau yn dilyn cyfeiriad o'r Pwyllgor Gwaith, cynnal adolygiadau ar effeithiolrwydd y polisïau cyfredol a bod yn fan i wyntyllu materion o bwys.

4.4 Prif rôl y Prif Bwyllgor Sgriwtini oedd dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, monitro perfformiad a sgriwtineiddio gwaith sefydliadau eraill sy'n cael effaith ar y bobl sy'n byw ym Môn.

4.5 Roedd pob Pwyllgor yn adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol yn y Cyngor. Ni fedr aelod o Bwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

4.6 Trefnwyd pump cyfarfod yr un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini ond gallai'r Pwyllgorau drefnu cyfarfodydd ychwanegol. Roedd y Cadeirydd, gyda chymorth yr Is-Gadeirydd, yn datblygu rhaglenni gwaith ar gyfer y Pwyllgor a chyn bob Pwyllgor, roeddynt yn trafod y rhaglen ddrafft.

4.7 Cyn cyfarfodydd Pwyllgor, cynhaliwyd cyfarfod i gynllunio rhaglen i ystyried rhaglen ddrafft a chytuno ar newidiadau. Gallai aelodau, swyddogion ac unrhyw barti arall sydd â diddordeb ddod ag eitemau posib i sylw'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd. Gellid dod â materion yn uniongyrchol i sylw'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd neu'r Swyddog Sgriwtini

4.8 Gallai pob Pwyllgor sefydlu ei raglen waith ei hun ac roedd hyn yn caniatáu i aelodau gael mwy o lais ym materion y Cyngor trwy gynnal cyfarfodydd a oedd yn ymwneud â materion lleol.

4.9 Gallai unrhyw aelod o'r Cyngor roddi rhybudd i'r Rheolwr-gyfarwyddwr ei fod o/hi yn dymuno i eitem sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Pwyllgor gael ei chynnwys ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor. Wedi derbyn cais o'r fath, byddai'r Rheolwr-gyfarwyddwr yn sicrhau bod yr eitem yn cael ei chynnwys ar y rhaglen nesaf. Byddai gan yr aelod sy'n rhoi rhybudd o eitem benodol ar raglen yr hawl i siarad yn y cyfarfod o'r Pwyllgor pan fyddai'r eitem honno'n cael ei hystyried.

4.10 Byddai'r Pwyllgorau hefyd yn ymateb, cyn gynted ag y byddai eu rhaglenni gwaith yn caniatáu, i geisiadau gan y Cyngor ac os oedd yn ystyried bod hynny'n briodol, y Pwyllgor Gwaith i adolygu meysydd penodol o weithgaredd y Cyngor. Mewn achosion lle gwned hynny, byddai'r Pwyllgorau yn cyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau ac unrhyw argymhellion yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ac/neu'r Cyngor.

4.11 ‘Roedd Aelodaeth y Prif Pwyllgor Sgriwtini rhwng Mai 2009 a Mai 2010 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| • Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd) | • Y Cynghorydd Eric Jones ( Is-Gadeirydd ) |
| • Y Cynghorydd Gwilym O Jones | • Y Cynghorydd Eric Roberts |
| • Y Cynghorydd Selwyn Williams | • Y Cynghorydd Hywel Eifion Jones |
| • Y Cynghorydd Clifford Everett | • Y Cynghorydd Gareth Winston Roberts OBE |
| • Y Cynghorydd Rhian Medi | • Y Cynghorydd J P Williams |
| • Aelodau Cyfetholedig gyda phleidlais pan yn trafod materion yn ymwneud ag addysg : Parch. Robert Townsend Mr Keith Roberts | . |

4.12 Mae’r materion a ystyriwyd gan y Prif Pwyllgor Sgriwtini rhwng Mai 2009 a Mai 2010 wedi eu rhestru yn y tabl canlynol:

| **DYDDIAD CYFARFOD PWYLLGOR** | **EITEM (AU ) YSTYRIWYD** |
|---|---|
| • 6 Mai 2009 | • Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd. |
| • 24 Mehefin 2009 | • Cronfa’r Degwm.<br>• Perfformiad Chwarterol.<br>• Cronfa Datblygu Sgriwtini.<br>• Arfarnu Swyddi.<br>• Rhagolygon y Gyllideb. |
| • 28 Gorffennaf 2009 | • Cronfa’r Degwm.<br>• Cronfa Datblygu Sgriwtini.<br>• Cynhadledd Sgriwtini.<br>• Rhagolygon Cyllidebol.<br>• Côd Ymarfer Cyllido.<br>• Ystafell TGCh. |
| • 7 Awst 2009 | • Galw i mewn benderfyniad y Pwyllgor Gwaith dyddiedig 21 Gorffennaf 2009 mewn perthynas â Strategaeth Gwella Canolfannau Hamdden Dan Do. |
| • 19 Awst 2009 | • Galw i mewn benderfyniad y Deilydd Portffolio dyddiedig 5 Awst 2009 mewn perthynas â Gwaith Mân-werthu Ychwanegol (Tŷ Mawr). |
| • 30 Medi 2009 | • Cronfa’r Degwm<br>• Cronfa Datblygu Sgriwtini |

| | |
|---|---|
| | • Cynhadledd Sgriwtini<br>• Materion a gyfeiriwyd yn ôl i'r Prif Bwyllgor Sgriwtini gan y Pwyllgor Gwaith<br>• Rheoli Fflyd<br>• Arfarnu Swyddi<br>• Adroddiad Monitro Blynyddol y Cyngor Sir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg am y cyfnod 2008/09 ar weithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg.<br>• Llythyr gan y Cynghorydd Peter Rogers. |
| • 12 Hydref 2009 | • Ailasesiad Blynyddol ar y Cynllun Risg a Gwella 2009/10 |
| • 20 Hydref 2009 | • Galw i mewn benderfyniad y Pwyllgor Gwaith dyddiedig 6 Hydref 2009 mewn perthynas â rheolau gweithdrefn cyllidebol ac amgáu cyllideb y mân-ddaliadau. |
| • 3 Rhagfyr 2009 | • Cyflwyniad gan GLLC ynghylch Rhagolygon Cyllidebol.<br>• Penderfyniad y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â Chronfa'r Degwm.<br>• Datganiad o Ddiddordeb<br>• Datblygu Blaenoriaeth Tymor Canolig y Cyngor<br>• Rheoli'r Fflyd<br>• Arfarnu Swyddi<br>• Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys 2008/09 |
| • 21 Rhagfyr 2009 | • Galw i mewn benderfyniad y Pwyllgor Gwaith dyddiedig 30 Tachwedd 2009 mewn perthynas â rhaglen ad-drefnu ysgolion cynradd.<br>• Galw i mewn benderfyniad y Pwyllgor Gwaith dyddiedig 1 Rhagfyr 2009 mewn perthynas â Phrydlesu Tŷ'r Warden i Geo Môn, Parc Gwledig y Morglawdd, Caergybi. |
| • 4 Chwefror 2010 | • Trosedd ac Anrhefn (Diweddariad)<br>• Edrych tua'r Dyfodol: Ymgynghori ar Flaenoriaethau Cyngor, ei Strategaeth Gyllidebol ar gyfer y tymor Canol a Chynigion Cyllidebol ar gyfer 2010/11.<br>• Mesurau Llywodraeth Leol 2009. |

| | |
|---|---|
| • 8 Ebrill 2010 | • Protocol Trosedd ac Anrhefn.<br>• Rheoli Fflyd<br>• Gweithdai Trosolwg a Sgriwtini. |

4.13 ‘Roedd aelodaeth y Pwyllgor Trosolwg Polisi Addysg, Iechyd a Lles rhwng Mai 2009 a Mai 2010 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| • Y Cynghorydd Fflur Hughes ( Cadeirydd) | • Y Cynghorydd Selwyn Williams ( Is-Gadeirydd ) |
| • Y Cynghorydd Jim Evans | • Y Cynghorydd Kenneth P Hughes |
| • Y Cynghorydd Gwilym O Jones | • Y Cynghorydd O Glyn Jones |
| • Y Cynghorydd Victor John Jones | • Y Cynghorydd Eric Roberts |
| • Y Cynghorydd Lewis Davies | • Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes |
| • Y Cynghorydd Dylan Jones | • Y Cynghorydd Raymond Jones |
| • Y Cynghorydd Derlwyn Hughes | • Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones |
| • Y Cynghorydd Hefin Thomas | • Aelodau Cyfetholedig gyda phleidlais pan yn trafod materion yn ymwneud ag addysg:<br>Parch Robert Townsend<br>Mr Keith Roberts |
| • Aelod Cyfetholedig heb hawl i bleidleisio: Mr Dafydd Evans | |

4.14 Mae’r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Trosolwg Polisi, Addysg, Iechyd a Lles rhwng Mai 2009 a Mai 2010 wedi eu rhestru yn y tabl canlynol:

| **DYDDIAD CYFARFOD Y PWYLLGOR** | **EITEM (AU ) YSTYRIWYD** |
|---|---|
| • 6 Mai 2009 | • Ethol Cadeirydd a Is-Gadeirydd |
| • 22 Mehefin 2009 | • Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru: Cyrraedd Safonau Uwch - Fframwaith Mesur ac Asesu Perfformiad ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru - Ebrill 2008 i Fawrth 2011<br>• Contract Prydau Ysgol<br>• Datblygu Chwaraeon<br>• Rhaglen Waith y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| • 14 Medi 2009 | • Strategaeth Ad-drefnu Ysgolion<br>• Teclyn Asesu Effaith ar Iechyd |
| • 10 Tachwedd 2009 | • Arolwg Cyflwr Tai Sector Preifat 2008<br>• Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaeth Addysg 2009<br>• Contract Prydau Ysgol |
| • 15 Rhagfyr 2009 | • Adrodd ar Berfformiad, Gwelliant a Sgriwtini gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Adroddiad Blynyddol ar Amgueddfeydd, Diwylliant ac Archifau<br>• Bwrdd Lleol Diogelu Plant Ynys Môn a Gwynedd<br>• Adroddiad Ailarchwilio Estyn ar Hyfforddiant Môn ynghyd â Chynllun Gweithredu |
| • 1 Chwefror 2010 | • Edrych i'r Dyfodol: Ymgynghoriad ar Flaenoriaethau'r Cyngor, Strategaeth Ariannol Tymor Canol a Chynigion Cyllideb 2010/11.<br>• Adroddiad Diogelu – Gwasanaeth Plant.<br>• Adrodd ar Berfformiad, Gwelliant a Sgriwtini gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| • 18 Chwefror 2010 | • Cytundeb Prydau Ysgol<br>• Adrodd ar Berfformiad, Gwelliant a Sgriwtini gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>• Astudiaeth ymchwil Llywodraeth y Cynulliad – Effaith Ymfudiad Diweddar ar Ddyraniadau Tai Awdurdodau Lleol a Gweithrediadau Dan y Ddeddfwriaeth Digartrefedd. |
| • 12 Mawrth 2010 | • Cynghrair Iechyd Ynys Môn<br>• Arolwg Estyn ar Ansawdd y Gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid. |
| • 20 Ebrill 2010 | • Cynllun Beicio i'r Gwaith<br>• Adrodd ar Berfformiad, Gwelliant a Sgriwtini gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>• Arolwg Estyn- Adroddiad ar Ansawdd (Gwasanaeth Addysg). |

4.15 ‘Roedd aelodaeth y Pwyllgor Trosolwg Polisi Datblygu, Gwasanaethau Sylfaenol ac Adnoddau rhwng Mai 2009 a Mai 2010 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| • Y Cynghorydd R L Owen (Cadeirydd) | • Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes( Is-Gadeirydd ) |
| • Y Cynghorydd Barrie Durkin | • Y Cynghorydd Jim Evans |
| • Y Cynghorydd Kenneth P Hughes | • Y Cynghorydd Eric Jones |
| • Y Cynghorydd Eric Roberts | • Y Cynghorydd Elwyn Schofield |
| • Y Cynghorydd Lewis Davies | • Y Cynghorydd John Penri Williams |
| • Y Cynghorydd Raymond Jones | • Y Cynghorydd J Arwel Roberts |
| • Y Cynghorydd W T Hughes | • Y Cynghorydd Keith Evans |
| • Y Cynghorydd Peter Rogers | • Aelod Cyfetholedig heb hawl i bleidleisio: Mr Dennis Evans |

4.16 Mae’r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Trosolwg Polisi Datblygu, Gwasanaethau Sylfaenol ac Adnoddau rhwng Mai 2009 a Mai 2010 wedi eu rhestru yn y tabl canlynol:

| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **MATERION A GAFODD SYLW** |
|---|---|
| • 6 Mai 2009 | • Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd |
| • 18 Mehefin 2009 | • Marina Biwmares – Diweddariad<br>• Prosiect Trin Gwastraff Gogledd Cymru<br>• Allbynnau’r Gwasanaeth Priffyrdd a Chludiant am 2008/2009 a Thargedau am 2009/2010<br>• Rhaglen Waith y Pwyllgor |
| • 17 Medi 2009 | • Economi’r Ynys - Diweddariad<br>• Marina Biwmares - Diweddariad<br>• Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru<br>• Polisi Goleuadau Stryd |
| • 25 Tachwedd 2009 | • Rheoli Gwastraff<br>• Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ynghylch i) Goleuo ii) Datganiadau Dylunio a Mynediad |

| | |
|---|---|
| • 26 Ionawr 2010 | • Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru<br>• Edrych i'r Dyfodol: Ymgynghoriad ar flaenoriaethau'r Cyngor, y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a Chynigion ar gyfer cyllideb 2010-11 |
| • 17 Chwefror 2010 | • Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. |
| • 31 Mawrth 2010 | • Ynys Ynni. |

4.17 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried nifer o eitemau yn ystod y cyfnod hwn ac mae cofnodion pwyllgorau ar gael ar wefan Cofnodion Pwyllgorau'r Cyngor (gweler y rhan "tudalennau poblogaidd" ar ochr dde tudalen hafan y Cyngor): .ynysmon.gov.uk

## 5 TROSOLWG A SGRIWTINI O 11 MAI 2010

5.1 O ganlyniad i'r Adroddiad ar yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol cymerwyd camau i wella sgriwtini yn y Cyngor. Gofynnodd y Cyngor am gymorth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i ddatblygu a chefnogi ei swyddogaeth sgriwtini a gofynnodd iddo ddatblygu argymhellion ar gyfer gwella sgriwtini. Yn ystod Chwefror 2010 cyhoeddodd CLlLC **"Adolygiad o Drefniadau Sgriwtini yn Ynys Môn"** a gwnaed yr argymhelliad isod:

1. Dylai Aelodau a Swyddogion gytuno, deall a chydnabod yn eglur rôl Trosolwg a Sgriwtini.
2. Dylid adolygu strwythurau Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini.
3. Mae angen i Bwyllgorau Trosolwg/Sgriwtini ddatblygu rhaglen waith briodol i'r dyfodol.
4. Dylid diwygio'r ffordd y mae Pwyllgorau Trosolwg/Sgriwtini yn rhoi sylw i eitemau.
5. Dylid cryfhau gallu Pwyllgorau Trosolwg/Sgriwtini i ddarparu her effeithiol ac adeiladol.
6. Dylid cryfhau cefnogaeth Swyddogion ar gyfer Pwyllgorau Trosolwg/Sgriwtini.
7. Mae angen i'r swyddogaeth Trosolwg a Sgriwtini gael ei hadolygu'n barhaus i sicrhau y dysgir gwersi o'r tu allan a'r tu mewn i'r sefydliadau a bod newidiadau yn cael eu gwneud i'r swyddogaeth o ganlyniad.
8. Mae rôl aelodau etholedig yn hollbwysig o ran datblygu'r swyddogaeth Trosolwg a Sgriwtini.

5.2 Anerchodd y Gweinidog y Cyngor ar 24 Chwefror ac ysgrifennodd lythyr at yr Arweinydd ar 4 Mawrth yn amgáu dogfen "Camau Gweithredu ar Gyfer Sir Ynys Môn" a oedd yn cynnwys cyfeiriad at Drosolwg a Sgriwtini - *"There should be a fundamental restructuring of Overview and Scrutiny to ensure the Council has in place adequate provision for scrutinising the performance of its service areas. This should include:-*

- *An increase in the number of committees and frequency of meetings;*
- *Expansion of officer support (both directly and from senior management generally);*
- *An end to the synthetic and confusing division between Overview and Scrutiny;*
- *Giving all committees expanded powers of cooption; and*
- *An in-depth scrutiny case study of children's services as a matter of priority, as we have previously recommended"*

5.3 Ar 11 Mai, cyflwynwyd adroddiad ar Drosolwg a Sgriwtini i'r Cyngor llawn a chytunwyd i sefydlu strwythur Sgriwtini newydd i gynnwys sefydlu 5 Pwyllgor Trosolwg a Sgriwtini a elwir:

1) Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
2) Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol
3) Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden
4) Pwyllgor Sgriwtini yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol
5) Pwyllgor Sgriwtini Datblygu,Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo

5.4 Dylai'r strwythur newydd hefyd ei gwneud yn haws i aelodau ddewis pynciau ar gyfer eu sgriwtineiddio sydd o werth ac o ddiddordeb i bobl Ynys Môn a gwella'r cyswllt rhwng y broses sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgorau Sgriwtini yn ymestyn i gynnwys yr isod:

| **ENW'R PWYLLGOR** | **CYLCH GORCHWYL** |
|---|---|
| 1) PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL<br>( 12 Aelod)<br><br>Ynghyd ag aelodau cyfetholedig (gyda hawl i bleidleisio) pan yn delio gyda materion addysg | – Defnydd gorau o staff, cyllid ac eiddo<br>– Polisi Corfforaethol<br>– Strategaeth Gymunedol<br>– Cwynion<br>– Proses y gyllideb gorfforaethol a'i monitro<br>– Systemau ariannol a gweinyddol<br>– Iechyd a Diogelwch<br>– TGCh<br>– Cynllun Gwella a'i fonitro<br>– Gwasanaethau cefnogi mewnol<br>– Cynllun Iaith<br>– Cytundebau canlyniadau<br>– Monitro perfformiad<br>– Pŵer galw-i-mewn<br>– Arloesedd gwasanaethau a chydweithredu<br>– Llywodraethu partneriaeth strategol |

| | |
|---|---|
| | – Sgiliau’r gweithlu |
| 2) PWYLLGOR SGRIWTINI TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL<br>( 10 Aelod) | – Gwrthdlodi<br>– Budd-daliadau<br>– Gwasanaeth gofal a chefnogaeth bersonol<br>– Adfywio cymunedol<br>– Rhai difreintiedig<br>– Cyfleon cyfartal<br>– Byw’n Iach<br>– Tai<br>– Canolfan J E O’Toole<br>– Ystafell Fonitro (Gofal Môn a Chamerâu Gorchwylio)<br>– Diogelu pobl fregus<br>– Ansawdd bywyd<br>– Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 3) PWYLLGOR ADDYSG A HAMDDEN<br>( 10 Aelod)<br>YNGHYD Â<br>Cynrychiolwyr yr eglwys a rhieni sy’n llywodraethwyr yn unol â pharagraffau 8-11 Atodlen 1 Deddf Llywodraeth Leol 2000 | – Archifau, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd<br>– Diwylliant<br>– Addysg<br>– Dysgu Gydol Oes<br>– Hyfforddiant Môn<br>– Cyfleusterau chwaraeon a hamdden<br>– Gwasanaethau Ieuenctid a Chymunedol |
| 4) PWYLLGOR SGRIWTINI YR AMGYLCHEDD A GWASANAETHAU TECHNEGOL (10 Aelod) | – Atal Trosedd a’r Pwyllgor Sgriwtini Trosedd ac Anhrefn Statudol<br>– Cynllunio mewn Argyfwng<br>– Iechyd Amgylcheddol<br>– Stiwardiaeth amgylcheddol<br>– Priffyrdd (yn cynnwys ffyrdd, strydoedd, pontydd, meysydd parcio, mynediad i’r cyhoedd<br>– Cynllunio Defnydd Tir<br>– Trwyddedu<br>– Cofrestru Genedigaethau, |

| | |
|---|---|
| | Priodasau a Marwolaethau<br>– Amddiffynfeydd Môr a Morwrol<br>– Cynaliadwyaeth<br>– Safonau Masnach<br>– Cludiant<br>– Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu |
| 5) PWYLLGOR SGRIWTINI DATBLYGU ECONOMAIDD, TWRISTIAETH AC EIDDO (10 Aelod) | – Busnesau lleol a chynhenid<br>– Isadeiledd par: cyllido adfywio economaidd<br>– Buddsoddi o'r tu allan<br>– Hyrwyddo adfywio economaidd<br>– Rheoli eiddo ac asedau<br>– Twristiaeth<br>– Sgiliau'r gweithlu (trwy'r Ynys) |

5.5 O fewn eu cylch gorchwyl, bydd Pwyllgorau Sgriwtini a Throsolwg yn:

- Adolygu a/neu sgriwtineiddio penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor;

- Cyflwyno adroddiadau a/neu argymhellion i'r Cyngor llawn a/neu'r Pwyllgor Gwaith a/neu unrhyw Bwyllgor ar y Cyd neu Bwyllgor ardal mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau;

- Ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion;

- Ymarfer yr hawl i alw i mewn, er mwyn ailystyried penderfyniadau a wnaed ond nad ydynt eto wedi eu gweithredu gan y Pwyllgor Gwaith a/neu unrhyw Bwyllgorau Ardal **[O.N. Nodwch os gwelwch yn dda bod y grym i alw penderfyniad i mewn wedi ei gyfyngu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac ni ddylid ond ei ddefnyddio'n gynnil oherwydd y gallai olygu oedi gyda gweithredu polisi]**; a

- Cynnal adolygiadau dan Raglen Cymru ar gyfer Gwelliant ar y swyddogaethau sydd y tu mewn i'w faes priodol a chyflwyno adroddiadau ar y materion trwy'r Pwyllgor Gwaith i'r Cyngor.

5.6 O safbwynt eu swyddogaeth mewn perthynas â datblygu ac adolygu polisïau, gall Pwyllgorau Sgriwtini:

- Gynorthwyo'r Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu ei gyllideb a'i fframwaith polisi drwy ddadansoddiad manwl o faterion polisi;

- Gwneud ymchwil, ymgynghori gyda'r gymuned ac ymgynghori gydag eraill i ddadansoddi materion polisi a dewisiadau posibl;

- Ystyried a gweithredu mecanweithiau i annog a gwella cyfranogiad cymunedol yn y gwaith o ddatblygu a dewisiadau posib;

- Holi aelodau'r Pwyllgor Gwaith a/neu bwyllgorau a Phrif Swyddogion am eu barn ar faterion ac argymhellion sy'n effeithio ar yr ardal; a

- Cysylltu â chyrff allanol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal, bônt yn rhai cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, i hyrwyddo lles y bobl leol drwy weithio ar y cyd.

5.7 O safbwynt eu rôl sgriwtini, gall Pwyllgorau Sgriwtini:

- Adolygu a sgriwtineiddio penderfyniadau a pherfformiad y Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgorau a Swyddogion y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau unigol a thros gyfnod o amser;

- Adolygu a sgriwtineiddo perfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig;

- Holi aelodau'r Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion am eu penderfyniadau a'u perfformiad, p'un ai yn gyffredinol o gymharu â chynlluniau gwasanaeth a thargedau dros gyfnod o amser, neu mewn perthynas â phenderfyniadau, cynlluniau neu brosiectau neilltuol;

- Gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgor priodol a/neu'r Cyngor yn deillio o ganlyniadau'r broses sgriwtini;
- Adolygu a sgriwtineiddio perfformiad cyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal a gwahodd adroddiadau ganddynt drwy ofyn iddynt annerch y Pwyllgor Sgriwtini a phobl leol i sôn am eu gweithgareddau a'u perfformiad; a

- Holi a chasglu tystiolaeth oddi wrth unrhyw berson arall (gyda'i ganiatâd).

5.8 Ar 13 Gorffennaf 2010 etholwyd y Cadeiryddion a'r Is-Gadeiryddion isod ar gyfer y pum Pwyllgor Sgriwtini:

| PWYLLGOR | CADAIR AC IS-GADAIR |
|---|---|
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | • Cadeirydd: Y Cynghorydd Ieuan Williams<br>• Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Dylan Jones |
| Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | • Cadeirydd: Y Cynghorydd Fflur Hughes<br>• Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Glyn Jones |
| Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden | • Cadeirydd: Y Cynghorydd Derlwyn Hughes<br>• Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Trefor Ll Hughes |
| Pwyllgor Sgriwtini yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol | • Cadeirydd: Y Cynghorydd R L Owen<br>• Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Selwyn Williams |
| Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo | • Cadeirydd: Y Cynghorydd J V Owen<br>• Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd John Penri Williams |

5.9 Gall effeithiolrwydd Pwyllgorau Sgriwtini ddibynnu ar nifer o ffactorau megis cefnogaeth annigonol neu amhriodol gan swyddogion, effaith gwleidyddiaeth plaid/grŵp ac ymateb gwael ar lefel weithredol i'r broses sgriwtini. Mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â'r gwendidau hyn ac wedi penodi Rheolydd Sgriwtini ac yn ceisio penodi un swyddog cymorth sgriwtini ychwanegol.

5.10 Ers Mai 2010 mae'r Cyngor wedi bod yn ffodus i gael mewnbwn ac arweiniad gan Frances Taylor ar sut i ddatblygu'r swyddogaeth Sgriwtini. Mae Frances yn gyflwynwraig ac yn hwylusydd arbenigol ac mae wedi gweithio gyda nifer o sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae wedi ymgymryd â rôl Pennaeth Sgriwtini Dros Dro ac wedi hwyluso'r gweithdai hyfforddi isod ar gyfer aelodau.

| DYDDIAD | MANYLION |
|---|---|
| 27 Mai 2010 | Cyfarfod Grŵp Llywio Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion |
| 2 Mehefin 2010 | Cyfarfod Grŵp Llywio Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion |
| 3 Mehefin 2010 | Cyflwyniad i aelodau'r Grŵp Annibynwyr Gwreiddiol ar Drosolwg a Sgriwtini ynghyd â chyfle i aelodau ofyn cwestiynau ac awgrymu pynciau ar gyfer sgriwtini. |
| 16 Mehefin 2010 | Cyfarfod Grŵp Llywio Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion |
| 13 Gorffennaf 2010 | Cyflwyniad i'r Pwyllgor Gwaith ar Drosolwg a Sgriwtini ynghyd â chyfle i ofyn cwestiynau ac awgrymu pynciau ar gyfer sgriwtini. |

| | |
|---|---|
| 28 Gorffennaf 2010 | Gweithdy Diwrnod Llawn i'r holl Aelodau, ac i Swyddogion ar Drosolwg a Sgriwtini ynghyd â'r cyfle i ofyn cwestiynau ac awgrymu pynciau ar gyfer Sgriwtini. |
| 29 Gorffennaf 2010 | Gweithdy Hanner Diwrnod ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgor Sgriwtini a Swyddogion i gyfrannu tuag at raglenni gwaith y pwyllgorau. |

5.11 O safbwynt codi ymwybyddiaeth swyddogion o'r swyddogaeth sgriwtini, gwnaeth y Pennaeth Sgriwtini Dros Dro gyflwyniad i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ar ddydd Iau 27 Mai ar brif swyddogaethau sgriwtini ac arweiniodd ddwy sesiwn anffurfiol ar gyfer staff i ysgogi diddordeb yn y swyddi Sgriwtini a hysbysebwyd ac fel y gellid rhaeadru gwybodaeth ynghylch Sgriwtini ar draws y Cyngor.

5.12 Mae'r Pennaeth Sgriwtini Dros Dro wedi cael cyfarfod gyda Rheolwr Sgriwtini Cyngor Gwynedd gyda golwg ar gael cefnogaeth gan Wynedd ar gyfer gweithio ar y cyd o safbwynt cefnogaeth gan swyddogion ac er mwyn nodi pynciau a fydd yn cael eu sgriwtineiddio'n fanwl gan y ddau Gyngor sydd yr un fath neu'n debyg fel y gellid rhannu'r baich gwaith. Mae angen parhau gyda'r trafodaethau hyn dros yr ychydig wythnosau nesaf er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau rhanbarthol ac er mwyn osgoi dyblygu gwaith Sgriwtini yn ddianghenraid.

5.13 Ar 12 Gorffennaf 2010 cyflwynodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fesur yn cynnig newidiadau i'r ffordd y mae Sgriwtini yn gweithredu yng Nghymru. Bydd y mesur arfaethedig bellach yn mynd trwy amryfal rannau o'r broses yn y Cynulliad Cenedlaethol cyn derbyn Cymeradwyaeth Frenhinol mae'n debyg yn ystod 2011. (Ni wyddys ar hyn o bryd beth fydd dyddiad gweithredu'r Mesur). Mae darpariaethau Sgriwtini i'w gweld yn Rhan 6 o'r mesur ond nodir isod y darpariaethau allweddol:

- Galluogi dau neu fwy o awdurdodau lleol i sefydlu Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini ar y cyd.
- Galluogi awdurdodau lleol i gael grym i gyfethol pobl nad ydynt yn Gynghorwyr i wasanaethu ar Bwyllgorau Sgriwtini a chaniatáu hawliau pleidleisio iddynt.
- Galluogi Pwyllgorau Sgriwtini i gael gwybodaeth ac ymatebion gan sefydliadau y tu allan i'r Cyngor sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn eu hardal, a'r gallu i fynnu bod cynrychiolwyr o sefydliadau o'r fath yn dod i gyfarfodydd os oes angen.
- Rhoi dyletswydd ar Bwyllgorau Sgriwtini Awdurdodau Lleol i sgriwtineiddio gwasanaethau a roddir gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal.
- Annog grwpiau gwleidyddol i beidio â gweithredu trefniadau chwip ynghylch aelodau Pwyllgorau Sgriwtini.
- Darpariaeth bod awdurdodau lleol yn penodi aelodau fel Cadeiryddion Pwyllgorau Sgriwtini yn unol â chydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.
- Bod rhaid i awdurdodau lleol sefydlu pwyllgor archwilio i fonitro eu trefniadau ariannol.
- Bod rhaid i bwyllgorau sgriwtini gyhoeddi blaengynlluniau ar gyfer eu rhaglenni gwaith sgriwtini.

- Bod rhaid i bwyllgorau sgriwtini ymgynghori gydag etholwyr ar faterion polisi o bwys.
- Cyflwyno trefniadau "galwadau gan gynghorwyr i weithredu" fel bod modd i gynghorwyr lleol a'u hetholwyr sicrhau ymateb gan arweinwyr y Cyngor i faterion o bwysigrwydd lleol.

## 6. CYNNYDD

Yn dilyn y nifer o argymhellion a wnaed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru **(gweler 5.1)**, gwnaed cynnydd fel a ganlyn:

6.1 Mae rhai swyddogion ac aelodau yn deall rôl Trosolwg a Sgriwtini yn well - yn arbennig y rheini sydd wedi bod ar y sesiynau 'codi ymwybyddiaeth' yn ystod Mai, Mehefin a Gorffennaf. Dylid defnyddio llythyr newyddion y Cyngor dros yr ychydig fisoedd nesaf i esbonio'r rôl yn llawnach ac i gynnwys erthyglau ynghylch gwaith y 5 Pwyllgor Sgriwtini. I'r pwrpas hwn, trefnir cyfres o erthyglau dros y 12 mis nesaf gyda'r Uned Gyfathrebu.

6.2 Adolygwyd y Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini fel sydd wedi ei nodi ym mharagraff 5.1

6.3 Gwnaed gwaith datblygu gofalus ar raglenni gwaith trwy gyfarfodydd anffurfiol gyda Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y 5 Pwyllgor Sgriwtini, ymgynghori gyda'r Rheolwr-gyfarwyddwr dros dro, y Pennaeth Gwasanaeth - Polisi, y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro a swyddogion allweddol eraill o'r adrannau trwy gyfrwng cyfarfodydd a gohebiaeth e-bost. Cymerwyd i ystyriaeth hefyd y ddogfen "Edrych i'r Dyfodol" (Ymgynghoriad ar Flaenoriaethau'r Cyngor, y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a Chynigion Cyllideb 2010/11) a'r Cynllun Cymunedol yn ogystal â'r ddogfen Ystadegau Allweddol dyddiedig Mai 2010 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru).

6.4 Mae'r ffyrdd y mae Pwyllgorau Sgriwtini yn nodi ac yn blaenoriaethu eitemau ac wedyn yn cytuno ar y rhaglen waith wedi eu cefnogi trwy ddefnyddio prosesau a thempledau blaenoriaethu. Cyflwynwyd templedau sgopio hefyd fel ffordd o sicrhau fod gwaith sgriwtini manwl yn cael ei gynllunio'n briodol. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes wedi treialu'r prosesau hyn ac fe roddwyd prawf arnynt hefyd yn y gweithdai a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf ar gyfer aelodau a swyddogion.

6.5 Mae gallu Sgriwtini i ddarparu her effeithiol ac adeiladol wedi cael ei annog trwy drafodaethau gydag a rhwng aelodau'r Pwyllgor Gwaith a'r Aelodau eraill mewn perthynas â rôl Sgriwtini o ran bod yn 'ffrind adeiladol a beirniadol'. Cyflwynwyd templed adroddiad safonol ar gyfer swyddogion y mae angen iddynt ddarparu adroddiadau ar gyfer Sgriwtini fel bod yr adroddiadau hynny'n glir, yn fyr ac yn cynnwys eglurhad ar y materion a fydd yn cael eu sgriwtineiddio ym mhob maes gwaith a nodwyd.
Mae'r gwaith a wnaed yn ystod yr wythnosau diwethaf gan y Panel Sgriwtini yn dilyn ymlaen o'r pwyllgorau sgriwtini fel yr oeddynt eisoes ac sydd yn awr yn deillio o'r Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, o ddiddordeb a phwys penodol oherwydd mae aelodau'r pwyllgor wedi gweithio'n rheolaidd ac yn agos gyda'r Pennaeth Gwasanaeth priodol a swyddogion eraill yn yr adran i ddatblygu proses Sgriwtini briodol a fedr fonitro cynnydd, gwariant a pherfformiad yr adran. Gan adeiladau ar yr ymdrechion hyn, gobeithir y bydd modd yn awr symud ymlaen i wneud gwaith sgriwtini manylach ynghylch plant a phobl hyn.

6.6 Cryfhawyd y gefnogaeth ar gyfer Sgriwtini trwy benodi Rheolydd Sgriwtini. Mae gwaith recriwtio yn cael i wneud i benodi un Swyddog Cefnogaeth

Sgriwtini ychwanegol. Bydd swyddfa newydd, ar ail lawr Swyddfa'r Cyngor, i Sgriwtini yn lle ym mis Medi 2010.

6.7 Parheir i adolygu'r swyddogaeth Sgriwtini trwy gyfarfodydd anffurfiol ar ddiwedd pob Pwyllgor Sgriwtini ffurfiol lle gall aelodau a swyddogion drafod y cryfderau a'r gwendidau (a sut i'w goresgyn) a nodwyd yn y cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol. Trefnwyd i aelodau a swyddogion fynychu sesiynau 'gwersi a ddysgwyd' gydag awdurdodau cyfagos. Cynigir y dylid cynnal sesiwn hanner diwrnod unwaith y flwyddyn i adolygu'r cynnydd cyffredinol.

6.8 Bydd rôl aelodau etholedig o ran datblygu Sgriwtini effeithiol yn parhau i gael ei datblygu trwy sesiynau datblygu anffurfiol a thrwy ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol i aelodau i'w defnyddio fel rhan o'u hadnodd. Gwnaed cais am i Gadeiryddion gyfrannu'n fuan tuag at Sgriwtini dros gyfnod yr haf o ran gwaith sy'n berthnasol i'r rhaglenni gwaith drafft a pharagraff rhagarweiniol yn yr adroddiad blynyddol hwn.

## 7 MWY O WYBODAETH ?

7.1 Cewch ragor o wybodaeth am y swyddogaeth Trosolwg a Sgriwtini neu mae rhyddid i chwi gyflwyno sylwadau trwy gysylltu gyda'r Cyngor fel a ganlyn :

| | |
|---|---|
| Frances Taylor<br>Pennaeth Dros Dro Sgriwtini<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Swyddfeydd y Cyngor<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7TW<br>☎- ( 01248)752119<br>@anglesey.gov.uk | Geraint Wyn Roberts<br>Swyddog Sgriwtini<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Swyddfeydd y Cyngor<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7TW<br>☎- ( 01248)752039<br>@anglesey.gov.uk |

## 8 ARGYMHELLION

8.1 Mae angen ailymgynnull grŵp llywio o Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini a nodi cylch gorchwyl clir a chytuno ar broses ar gyfer cadeirio'r grŵp.

8.2 Dylid enwebu "Pencampwr Sgriwtini" o'r Pwyllgor Gwaith i gynorthwyo yn y gwaith o godi proffil Sgriwtini ledled y Cyngor ac i wella cyfathrebu yn arbennig rhwng aelodau ar y Pwyllgor Gwaith a'r aelodau eraill.

8.3 Dylid nodi cyllideb ymchwil o £5,000 a'i dyrannu i Bwyllgorau Sgriwtini i gryfhau capasiti Sgriwtini i ddarparu gwaith ymchwil a chyngor arbenigol. Grŵp Llywio Sgriwtini fyddai'n penderfynu sut i ddyrannu'r gyllideb hon.

8.4 Dylai'r holl Gyfarwyddwyr Corfforaethol nodi ac enwebu Swyddog Cyswllt o bob Adran fel pwynt allweddol ar gyfer cyfathrebu i aelodau a swyddogion Sgriwtini er mwyn darparu:

- cyfeiriad sydyn at feysydd adrannol priodol
- gwybodaeth allweddol ac adroddiadau cyfredol ynghylch meysydd gwasanaeth
- enwebiadau ar gyfer cefnogaeth ychwanegol a pherthnasol gan swyddog yn yr adran ar gyfer adolygiadau sgriwtini
- cysylltiadau a ffynonellau gwybodaeth allanol.

8.5 Dylai'r Pennaeth Sgriwtini Dros Dro a'r Rheolydd Hyfforddiant lunio rhaglen datblygu 12 mis ar gyfer aelodau a swyddogion i gefnogi'r gwaith parhaus o ddatblygu swyddogaeth sgriwtini a hynny'n seiliedig ar sylwadau a gafwyd gan aelodau a swyddogion ac anghenion hyfforddi, deddfwriaeth newydd y llywodraeth ac arferion da yn genedlaethol.

8.6 Dylid sefydlu Cynllun Cyfathrebu Sgriwtini gyda chefnogaeth yr Uned Gyfathrebu i godi proffil Sgriwtini a chodi ymwybyddiaeth ohono ledled Ynys Môn.

8.7 Dylid cytuno i ddiweddaru edrychiad yr Adroddiadau Sgriwtini Blynyddol yn y dyfodol a dilyn enghreifftiau da yn genedlaethol (Cyngor Sir Cumbria, Cyngor Bwrdeistref Sandwell ac ati) ac fel cam cychwynnol, dylid mofyn cyngor ac arweiniad gan Uned Graffeg y Cyngor ar y mater hwn.

8.8 Mae angen i weithgor anffurfiol o aelodau drafod a diffinio proses newydd, integredig ar gyfer sgriwtineiddio cyllideb flynyddol y Cyngor a hynny mewn ymgynghoriad gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a TGCh.

Dyddiedig : 6 Medi 2010

ATODIAD

<u>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)</u>

Mae'r Cyngor yn wynebu dwy brif her; sef adferiad cynaliadwy yn dilyn yr arolygiad llywodraethu corfforaethol ac ymateb i'r toriadau yn y cyllid sydd ar gael ar gyfer llywodraeth leol.

Rhan fawr o'r gwaith adfer yw gwella rheolaeth gorfforaethol y Cyngor. Mae'r gwaith sydd angen ei wneud i gyflawni'r nod hwn wedi ei amlygu yng Nghynllun Gwella 2009/10 a Chynllun Busnes Corfforaethol 2010/11. Dros y 12 mis nesaf bydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn edrych ar y risgiau mawr a nodwyd yn y cynllun cyntaf i weld a ydynt wedi cael sylw'n effeithiol oherwydd bod llawer ohonynt wedi bod yn ailymddangos yn yr adroddiad bob blwyddyn. Bydd y Cyngor yn sgriwtineiddio'r cynlluniau yn y cynllun corfforaethol newydd i asesu a oes cynnydd yn cael ei wneud ai peidio.

Mae'r cynllun corfforaethol yn sôn am Raglen Blaenoriaethau Fforddiadwy'r Cyngor. Fy nealltwriaeth o'r rhaglen yw ei bod yn cael ei blaenoriaethu yn y fath fodd mai cwtogi ar wasanaethau yw'r flaenoriaeth olaf. Yn y lle cyntaf bydd y Cyngor yn gweithio i:

- Wneud arbedion effeithlonrwydd trwy arferion gwell o ran cadw tŷ.
- Edrych am arbedion trwy weithio mewn partneriaeth a chydweithio.
- Canolbwyntio ar yr hyn y mae'n rhaid ei wneud yn hytrach na'r hyn sy'n ddewisol.
- Moderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio.

Bydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn edrych ar y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy i sicrhau bod yr holl arbedion y mae modd eu gwneud dan y pwyntiau bwled uchod yn cael eu cyflawni cyn ystyried cwtogi ar wasanaethau.

<u>Y Cynghorydd J. V. Owen (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd,</u>

Twristiaeth ac Eiddo

Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Ynys Môn yn bwrw ymlaen gyda chorff o waith â photensial sylweddol i gael effaith gadarnhaol ar economi'r Ynys. Rwyf wedi ceisio nodi prif feysydd gwaith y Cyngor a fyddai'n elwa o sgriwtini adeiladol. Rwy'n credu bod modd rhesymoli gwaith y Cyngor mewn perthynas â'r economi a thwristiaeth dan bedwar o brif benawdau.

Ynys Ynni

- Cerrig milltir allweddol a phwyntiau hollbwysig ar gyfer y rhaglen ynys ynni (byddai hyn yn sail rhaglen sgriwtini gyda mwy o ffocws)

Cyllid Cydgyfeirio

- Swm y Cyllid Cydgyfeirio y gwnaed cais amdano a'r swm y llwyddwyd i'w sicrhau
- Ffynonellau'r cyllid cyfatebol a ddefnyddiwyd i wneud cais am gyllid cydgyfeirio
- Y nifer o brosiectau a gwblhawyd yn llwyddiannus hyd yma gyda chyllid cydgyfeirio
- Y nifer o brosiectau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gyda chyllid cydgyfeirio
- Effaith gronnol y prosiectau hyn o ran, ond heb ei gyfyngu i:
  - Y nifer o swyddi a gafodd eu creu a'r nifer a gafodd eu diogelu
  - Y nifer o gwmnïau y rhoddwyd cymorth iddynt o ran gwelliannau ffisegol i drefi ac ardaloedd gwledig
  - Unrhyw wybodaeth berthnasol arall

Cymorth i Fusnesau Bychain a Chanolig
- Manylion am y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i Fusnesau Bychan a Chanolig.
- Manylion ynghylch y nifer o'r fath fusnesau sydd wedi elwa o'r cymorth hwn.

Llongau Mordeithio
Roedd ymweliad llongau mordeithio yn ddiweddar â Chaergybi yn llwyddiannus iawn a byddwn yn hoffi ystyried pa gamau y gellir eu cymryd i sicrhau mwy o ymweliadau o'r fath yn y dyfodol fel:
- Trosolwg o'r manteision i'r Ynys yn sgil ymweliadau gan longau mordeithio
- Trosolwg o gamau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i gynyddu'r nifer o longau mordeithio sy'n ymweld
- Trosolwg o unrhyw welliannau y mae angen eu gwneud i'r isadeiledd er mwyn cynyddu'r nifer o longau mordeithio sy'n ymweld
- Trosolwg o unrhyw ymarferion marchnata a brandio cyfredol a wnaed gan y Cyngor i wneud Ynys Môn yn fwy deniadol fel cyrchfan i longau mordeithio (a allai fod yn rhan o raglen ehangach o weithgareddau).

Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd rydym yn rhagweld y datblygir rhaglen o sgriwtini gyda mwy o ffocws, a hynny er mwyn cynorthwyo gyda chyflawni'r mentrau allweddol a gwella economi Ynys Môn.

| |
|---|
| Y Cynghorydd Derlwyn Hughes (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden)<br><br>Y prif amcan yw sicrhau bod y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden yn herio ac yn archwilio penderfyniadau a pholisïau'r Pwyllgor Gwaith, ei fod yn sgriwtineiddio ansawdd a pherfformiad gwasanaethau, gan hyrwyddo prosesau agored a thryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd yn Ynys Môn.<br><br>Yn ogystal â ***dal y Pwyllgor Gwaith i gyfrif*** trwy gwestiynu'r ffordd y mae penderfyniadau'n cael eu gweithredu, y nod yw bod yn rhan o'r gwaith o ***Ddatblygu ac Adolygu Polisïau*** mor fuan â phosib yn y broses, gan weithredu fel 'ffrind beirniadol' i herio a dylanwadu ar ddatblygiad polisïau mewn modd cynhwysol sy'n cynnwys partneriaid a phartïon eraill sydd â diddordeb.<br><br>Bydd y Cyngor yn adolygu ***rheoli perfformiad*** gan sicrhau y gall aelodau wella a dylanwadu ar berfformiad y Cyngor a bod o gymorth i yrru gwelliannau i wasanaethau.  Maes pwysig arall fydd ***sgriwtini allanol*** o wasanaethau lleol a ddarperir gan gyrff allanol sy'n cael effaith ar drigolion, yn arbennig plant a phobl ifanc.<br><br>Bydd y pynciau a fydd yn cael sylw yn cynnwys:<br>• Monitro cyraeddiadau disgyblion y Sir<br>• Adolygu cynnydd o ran rhesymoli ein darpariaeth Addysg<br>• Monitro'r ddarpariaeth o wasanaethau Diwylliant a Hamdden a gweithgareddau cysylltiedig<br>• Monitro'r Gwasanaeth Ieuenctid yn rheolaidd gyda golwg ar sicrhau gwell gwasanaeth ac un y bydd modd ei gymharu gyda gwasanaethau awdurdodau eraill a chan gwrdd â dyheadau pobl ifanc<br>• Monitro costau darparu a chwrdd â gofynion y Gwasanaeth Anghenion Addysgol Arbennig yn Ynys Môn |
| Y Cynghorydd R. L. Owen (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol)<br><br>Canolbwyntiodd y Pwyllgor Trosolwg Polisi Datblygu, Gwasanaethau Sylweddol ac Adnoddau ar amrediad o faterion allweddol yn ystod 2009-2010, gan gynnwys materion fel rheoli gwastraff, cyfrannu at ddatblygu canllawiau cynllunio, diweddariadau ynghylch economi'r Ynys a gwaith a oedd yn parhau mewn perthynas â gweithredu'r prosiect Ynys Ynni.  Oherwydd i mi gael y fraint o fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol newydd rwy'n bwriadu adeiladu ar y gwaith da a wnaed eisoes gan yr hen Bwyllgor. |
| Y Cynghorydd Fflur Hughes (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Mae statws Pwyllgorau Sgriwtini wedi gwella'n sylweddol yn y Cyngor Sir ac mae cyfnod "yr aelod distaw ar y meinciau cefn " wedi dod i ben.  Ein cyfrifoldeb yw sgriwtineiddio penderfyniadau a chyfrannu at ddatblygu polisïau ac mae hynny cyn bwysiced â chyfrifoldebau'r aelodau'r Pwyllgor Gwaith.  Fel aelodau o'r Pwyllgorau Sgriwtini newydd rhaid i ni wynebu'r her gyda brwdfrydedd ac ynni.<br><br>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn |

cynnwys goruchwylio gwasanaethau sy’n rhoi cymorth i oedolion a phlant difreintiedig sy’n byw yn ein cymunedau.  Ein rôl yw sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn rhai o’r safon uchaf bosib a rhaid bod yn agored i newid ac ailstrwythuro’r gwasanaeth wrth i ddisgwyliadau ein cymunedau a’n cleientiaid newid.

Mae’n gyfnod newydd i ni fel aelodau ac rwy’n edrych ymlaen at weithio gydag aelodau a swyddogion yn ystod y flwyddyn i ddod.